

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Carwyn Elias Jones
Grŵp: Plaid Cymru

Ward: Seiriol

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Deilydd Portffolio Economaidd Cysgodol – Yn trafod materion gyda'r Adran Datblygu Economaidd a'r Deilydd Portffolio.

Bwrdd Ynys Fenter – Mae'r bwrdd hwn yn goruchwyllo prosiectau o'r cychwyn i'r diwedd, gan sicrhau gwerth am arian.

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn – Rwyf wedi siarad yn gryf o blaid cefnogi Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc gyda'u ceisiadau am gyllid a hefyd cais i'r pum Cyngor Tref am gyllid ar gyfer camerâu goruchwyllo.

Cyngor Llawn, Panel Penodi, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – Rwyf wedi siarad ar sawl pwnc yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn gan gynnwys y gyllideb a'r prosiect gweithio'n gallach. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ymdrin â phrosiectau allanol ac mae'r Panel Penodi yn gyfrifol am y broses recriwtio a dethol pobl i swyddi uwch.

Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	5 (45%)
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	5 (62%)
Pwyllgor Penodiadau	4 (57%)
Is-bwyllgor Indemniadau	Dim cyfarfodydd
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.	

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Mae gweithio ochr yn ochr â Chynghorydd Sir profiadol, sef Lewis Davies, wedi bod yn werthfawr iawn i mi fel Cyngorydd newydd ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Cyngorydd Davies am ei holl gymorth, cefnogaeth a'i gyfeillgarwch. Isod rwy'n nodi rhai o'r materion yr wyf wedi ymdrin â hwy yn yr etholaeth eleni.

Cyflymder Band Eang - Darn mawr o waith a wneuthum yn ystod y 12 mis diwethaf oedd edrych ar gyflymder Band Eang yn y ward. Roedd y canlyniadau'n syfrdanol i rai rhannau o'r ward yn enwedig pentrefi Llanddona a Llansadwrn. Mae pentrefwyr Llanddona sy'n byw i lawr yn Wern y

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Wylan ar gyflymder o 0.3-0.4mbps, mae canol Llanddona ar gyflymder o tua 0.8mbps, ac ar gyrion y pentref mae'r cyflymder yn tua 1-2mbps ar ddiwrnod da. Roedd y ffigyrau mbps ar gyfer trigolion Llanddona yn un mor ddrwg yn enwedig i'r rheini yn byw ar linell gyfnewid Porthaethwy. Yn dilyn yr ymchwiliad cefais gyfarfod gyda Mr. Geraint Strello, Rheolwr BT Wales i bwysu'r achos. Mae gan Llanddona (Biwmares) bellach fynediad at gyflymder uchel iawn o 79mbps, bydd Llanddona yn derbyn ffibr i'w cartrefi (y datrysiad cyflymaf), ac yn y Gadlys rydym yn edrych ar nifer o opsiynau ar y cyd â'r Aelod Cynulliad Rhun ap Iorwerth a thrigolion lleol.

Diddymu Treth Twristiaid Pontŵn Biwmares - Gosodwyd hwn gan y Cyngor blaenorol, lle roedd treth twristiaid o 26c i bob teithiwr yn cael ei godi am ddefnyddio'r pontŵn newydd oddi ar Bier Biwmares. Nid oedd hi'n hawdd gwrthdroi mater yr oedd y Cyngor wedi ei basio'n flaenorol ac roedd rhaid rhoi llawer o amser ac ymdrech, ynghyd â chyfarfodydd a llythyrau. Trwy gydweithrediad y deilydd portffolio a swyddogion cyflwynwyd strwythur ffioedd newydd a symlach ac mae'r dreth i dwristiaid bellach wedi cael ei diddymu.

Llwybrau Graeanu - Lôn Hafoty Llanddona – Er bod y llwybr sy'n cysylltu Biwmares a Llanddona yn llwybr blaenoriaeth i'r Cyngor, mae llawer yn teimlo mai'r ffordd rhwng Llanddona a Llanddona a elwir yn lleol yn Lôn Hafoty yw'r un a ddefnyddir fwyaf gan bobl wrth fynd a dod o'r pentref. Ddwy flynedd yn ôl fe wnaeth Cyngor Ynys Môn dorri i lawr ar ei llwybrau graeanu pwysicaf ac roedd y ffordd hon yn un a gafodd ei hisraddio. Mynegais farn y bobl leol i'r Adran Briffyrdd. O ganlyniad bydd y wagen oedd yn arfer stopio wrth yr Owain Glyndŵr yn awr yn mynd heibio stad Bryn y Felin a Phonc y Felin.

Amrywiol - Biwmares/Llanfaes – Rwyf wedi ymdrin â nifer o faterion dros y 12 mis diwethaf, yn cynnwys dympio sbwriel, gwaith ar Bier Biwmares, ymgynghoriad un ffordd, parcio, cyfyngiadau cyflymder, tyllau yn y ffordd, ailwynebu ac ati. Roedd hefyd yn dda cael mynychu taith baton y Frenhines, digwyddiad gyda'r nos yn y Carchar a'r Llys a mynd i wasanaeth Sul y cofio gyda'r Cyngor Tref.

Cais am Orsaf Pleidleisio yn Llanfaes - Yn ystod y 12 mis diwethaf fe wnaethom gais ffurfiol i'r Pwyllgor Democrataidd bod gwasanaeth pleidleisio yn yr etholiad yn cael ei ddarparu ar gyfer pentref Llanfaes. Ar hyn o bryd mae trigolion Llanfaes yn pleidleisio yn nhref Biwmares ac maent wedi eu nodi ar y gofrestr etholiadol fel Ward Dwyrain Biwmares (343 o etholwyr wedi cofrestru). Mae pleidleisio Biwmares yn digwydd yng nghanolfan David Hughes lle gall tua 1,385 o etholwyr sydd wedi cofrestru fwrw eu pleidlais. Gwrthodwyd y cais hwn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Amddiffyn rhag Llifogydd ym Biwmares – Rhoddwyd llawer o ymdrech i mewn ynghyd â'm cyd-gynghorwyr a swyddogion y Cyngor i sicrhau gwaith gwerth £1.2m i gael amddiffynfeydd rhag llifogydd yn nhref Biwmares. Fel y gŵyr nifer o drigolion o brofiad, gall effeithiau llifogydd fod yn enbyd ac roeddem wrth ein bodd ein bod wedi medru sicrhau'r cyllid hwn.

Gwelliannau Llwybrau Diogel yn Llandegfan - Gan weithio ar y cyd â'r Adran Briffyrdd fe wnaethom sicrhau swm sylweddol o arian i wneud gwelliannau yn Llandegfan. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn digwydd dros y 12 mis diwethaf, gyda gwelliant amlwg iawn y tu allan i'r Neuadd Bentref lle gellir gweld wal newydd a llwybr troed lletach. Mae gwelliannau eraill yn cynnwys nifer o droedffyrdd sydd wedi cael eu diweddarau a'u gwneud yn fwy diogel fel llwybr.

Gorchymyn Prynu Gorfodol Mynwent Llaniestyn / Llanddona - Un o'r materion pwysicaf y byddaf wedi ymdrin ag ef fel Cynghorydd fu cynorthwyo i sicrhau tir ar gyfer ymestyn y fynwent yn Llaniestyn. Mae'r broses ar gyfer cael cymeradwyaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru i Orchymyn Prynu Gorfodol i ymestyn y fynwent wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r sefyllfa o ddiffyg lle i gladdu pobl wedi peri pryder mawr i nifer o drigolion lleol ac mae'n fater agos iawn at fy

nghalon gan fod tair cenhedlaeth o fy nheulu wedi eu claddu yn y fynwent. Siaradais yn angerddol ar y mater ynghyd â'r Cynghorydd Davies, Cyngor Cymuned Llanddona a Warden yr Eglwys o blaid y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn yr ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Hydref gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Llwyddiant - Blwch Postio i Hen Bentref Llandegfan - Yn dilyn galwad gan un o fy etholwyr yn datgan bod hen flwch post y Post Brenhinol yn hen bentref Llandegfan wedi cael ei dynnu oddi yno tua chwe mis yn ôl heb arwydd o un newydd yn cael ei roi yn ei le, cysylltais â Phrif Swyddfa'r Post Brenhinol. Ar ôl llawer o waith a gohebiaeth cytunodd y Post Brenhinol i leoli'r blwch postio newydd i wasanaethu hen bentref Llandegfan a gobeithio y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn fuan.

Sicrhau Bws leuencid Ynys Môn ar gyfer Llanddona - Mae Llanddona wedi cael amser caled dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol a gaeodd ei drysau am y tro olaf yn ôl ym mis Gorffennaf. Fel hwb i bobl ifanc y pentref fe wnaethom sicrhau gwasanaeth Bws leuencid Ynys Môn i'r pentref am y cyfan o'r 12 wythnos yr oedd ar gael. Roedd y rhaglen yn darparu ystod o weithgareddau ar gyfer y bobl ifanc ac roedd cyfle iddynt fynd i seremoni wobrwyo ar y diwedd i gael tystysgrif.

Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn Llandegfan – Roedd llawer o ansicrwydd ar ddechrau'r flwyddyn ynghylch y cynigion am y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac ym mha ffurf y byddai am y flwyddyn addysgol nesaf. Roedd nifer o rieni pryderus wedi cysylltu â ni, fe wnaethom gynrychioli eu safbwyntiau'n llawn ac yna deuthum yn aelod o'r grŵp tasg a gorffen ar gyfer y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ynghyd â'r Mudiad Meithrin a'r Grŵp Chwarae. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi ceisio ateb derbyniol i bawb oedd ynghlwm.

Gwelliannau i Barc Chwarae Llansadwrn – Rydym wedi llwyddo i sicrhau arian i wneud gwelliannau i barc chwarae'r plant yn Llansadwrn, rydym wedi llwyddo i gael ffens mesh weiren 90m, bwrdd picnic ac offer dringo newydd ar gyfer y parc. Roedd y broses yn cynnwys ysgrifennu cynnig 5 tudalen o hyd ar gyfer y cyllid.

Neuadd Bentref / Ysgol Llanddona – Rwyf wedi bod yn cefnogi pwyllgor y neuadd bentref yn Llanddona yn eu cais i gymryd drosodd yr Ysgol. Mae'r pwyllgor wedi cael amser ac opsiynau i gyflwyno cynnig ar gyfer safle'r ysgol.

Llywodraethwr Ysgol yn Llanddona, Llandegfan ac Ysgol David Hughes - Trist iawn oedd bod dechrau'r cyfnod 12 mis hefyd yn nodi diwedd Ysgol Gynradd Llanddona sydd wedi bod yn agos iawn at galonnau nifer ac yn rhywle sydd wedi darparu addysg ragorol. Yn y cyfnod hwn gweithiais yn galed gyda staff yr ysgol a llywodraethwyr i sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn cael eu gwarchod. Derbyniais wahoddiad oddi wrth Ysgol David Hughes i ymuno â'r Bwrdd Llywodraethu. Mae'n eithaf rhyfedd bod yn ôl yn yr ysgol yr oeddwn yn ei mynychu'n flaenorol. Rwyf wedi bod yn aelod brwd o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Gynradd Llandegfan ac rwyf hefyd yn mynychu'r Is-bwyllgor Cyllid.

Hyb Cymunedol – Llanddona a Llangoed – Rwyf wedi cefnogi'r adran dai a bellach mae gennym ddau hyb cymunedol wedi eu hailwampio yn y ward, un ym Maes Gwyn yn Llanddona a'r llall ym Mhont y Brenin yn Llangoed.

Haulfre Llangoed – Rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd i drafod gerddi Haulfre yn Llangoed yn cynnwys cyfarfod cyhoeddus poblogaidd iawn yn y neuadd bentref. Rwyf hefyd wedi achub ar bob cyfle yn Llangoedni i ddangos fy nghefnogaeth i gartref preswyl Haulfre bob tro y caiff ei grybwyll mewn cyfarfod.

Cloch Ysgol Llansadwrn – Trwy wneud cais i adran eiddo Cyngor Ynys Môn rwyf wedi gallu diogelu hen gloch yr ysgol ar gyfer pentref Llansadwrn. Cafodd y gloch ei throsglwyddo i Gadeirydd Pwyllgor Neuadd Bentref Llansadwrn yn ystod cyfarfod o Gyngor Cymuned Cwm Cadnant.

Grŵp Defnyddwyr Seiriol – Fel aelod o grŵp Defnyddwyr Seiriol, ‘Pobl Seiriol’, rwyf wedi bod yn rhagweithiol wrth fynychu nifer o gyfarfodydd yn y ward ac wedi rhoi fy enw i lawr ar gyfer yr is-bwyllgor cyfathrebiadau. Yn yr is-bwyllgor rydym yn ceisio meddwl am syniadau ynghylch y ffordd orau o rannu gwybodaeth trwy’r ward, gobeithio y gallwn weithredu ar rai o’r syniadau dros y 12 mis nesaf.

Cyrbiau Is – Mewn cydweithrediad â’r adran briffyrdd, rydym wedi llwyddo i osod dros ddau ddwsin o gyrbiau is sydd wedi gwneud gwahaniaeth anferthol i nifer o drigolion yn Llandegfan, roedd hyn mewn ymateb i nifer o etholwyr yn cwyno am rai cyrbiau a’r anhawster wrth gamu i fyny arnynt a dod i lawr oddi arnynt, yn enwedig i bobl hŷn, pobl anabl a rhieni gyda phramiau.

Wyneb y Ffordd a Thyllau yn y Ffordd – Materion priffyrdd eraill yr wyf wedi bod ynghlwm â hwy gyda’r Cyngor yw gwelliannau i wyneb ffyrdd, gyda gwaith ail-wynebu pwysig yn cael ei gynnal mewn sawl rhan o’r ward, yn cynnwys Llandegfan, Biwmares a Llanfaes. Mae nifer o dyllau wedi cael eu llenwi yn ogystal.

Materion Tai a’r Cynllun Gwella yn Llanfaes a Llandegfan – Rwyf wedi gweithio’n agos gyda’r Adran Dai a thrigolion lleol yn Llandegfan a Llanfaes ar y buddsoddiad sylweddol mewn gwaith uwchraddio sydd wedi bod yn mynd rhagddo am bron i flwyddyn. Mae’r gwaith hwn wedi cynnwys gwaith i’r to, ffenestri, inswleiddio, rendro, waliau terfyn ac ati. Mae rôl y Cynghorydd yn hollbwysig fel y cyswllt yn y canol pan fo angen. Rwyf wedi ymdrin â materion tai ar ran yr etholwyr o ran gofal a chynnal a chadw ac wedi cynorthwyo â cheisiadau am dai cymdeithasol. Mae’r adran dai wedi cydweithio’n wych â mi ar bob achlysur.

Safle Teithwyr – Rwyf hefyd wedi bod yn pwysu ar yr adran dai ynghylch y sefyllfa gyda’r safle teithwyr answyddogol sydd wedi ei leoli yn y ward ers 2007. I’r perwyl hwn fe wnaeth Pwyllgor Gwaith y Cyngor basio cyfres o argymhellion, yn cynnwys yr angen i ddod o hyd i safle swyddogol parhaol ar gyfer teithwyr ar yr Ynys.

Cynllunio – Roeddwn yn teimlo’n gryf ynghylch nifer o geisiadau cynllunio, a siaradais yn erbyn un yn arbennig yn y Pwyllgor Cynllunio. Rwy’n ymwybodol iawn o’n hamgylchedd cyfagos ac yn enwedig rhannau o’r ward sydd wedi cael statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Parth dim Galwadau Diwahoddiad ym Miwmares – Yn dilyn lansiad llwyddiannus yn Llandegfan ac yn dilyn targedu honedig yng Nghae Mair, Biwmares, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ac unwaith eto llwyddom i lansio ‘Parth Dim Galwadau Diwahoddiad’ ar gyfer Cae Mair. Fel arfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas sy’n cael eu targedu gan y masnachwyr diegwyddor hyn ac nid oes croeso iddynt.

Llwyddiant wrth Fuddsoddi, Rhwydwaith Trydan Hen Bentref Llandegfan a Llandegfan – Yn gynharach eleni fe wnaeth Scottish Power wneud y gwaith yr oeddwn wedi bod yn pwysu amdano. Roedd y buddsoddiad sylweddol yn cynnwys ailadeiladu gwerth 10.34km o rannau o’r llinel uwchben i ddatrys y problemau. Roedd hwn yn llwyddiant mawr i mi fel Cynghorydd wrth gael cwmni mawr i fynd i’w pocedi, a iawn yw hynny hefyd.

Baw Cŵn - Mae’r bin gwastraff baw cŵn y llwyddais i’w gael i Lansadwrn ar ran y trigolion wedi gwneud gwahaniaeth anferthol i stad ffordd Fferem Isaf sydd gerllaw parc chwarae’r plant. Mae baw cŵn yn broblem fawr trwy’r ward gyfan ac ochr yn ochr â’r Heddlu a’r Warden Cŵn cawsom

ddigwyddiad yn yr Owain Glyndŵr yn Llanddona i drafod syniadau i fynd i'r afael â'r broblem, lle mae bagiau gwastraff am ddim yn awr yn cael eu cyflenwi.

Cynghorau Cymuned – Rwyf yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn rheolaidd yn Llanddona, Cwm Cadnant a Llangoed, a hefyd yn mynychu Cyngor Tref Biwmares ac yn adrodd yn ôl iddo. Os oedd dau Gyngor Cymuned yn cyfarfod ar yr un noson, byddwn yn sicrhau rhwng y cynghorwyr bod rhywun yn medru bod yn bresennol ym mhob un.

Gweithio'n agos gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu - Mae gennyf gyswilt agos gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gweithio yn y ward ac sy'n gwneud gwaith rhagorol. Yn fuan ym mis Ionawr, fel enghraifft o gefnogaeth i'r gymuned fe wnaeth PCSO Natalie Tookey, y Cwnstabl Dewi Evans – Swyddog Troseddu Gwledig a Barry Owen, Warden Cŵn oll ymweld â thafarn yr Owain Glyndŵr yn Llanddona.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ymwybyddiaeth o Dementia - Neuadd y Dref Biwmares – Mynychais sesiwn ymwybyddiaeth o Dementia oedd yn cael ei chyflwyno gan Faer Biwmares, y Cynghorydd Ian Davies. Roedd y sesiwn hon yn ddefnyddiol iawn ac rwyf wedi rhoi fy enw i lawr i fod yn gyfaill Dementia.

Wylfa Newydd - Horizon – Ysgrifennais at y Prif Swyddog yn Horizon i nodi, gan fod y cynllun ar gyfer Wylfa hefyd yn cynnwys cynyddu'r niferoedd yn y Pencadlys yng Nghaerloyw, y byddwn yn croesawu ymdrech ddwys a ragweithiol i ddenu graddedigion lleol i weithio yno fel cam yn eu gyrfa cyn dychwelyd i Ynys Môn. Pwysais hefyd am gyfleoedd i gyflenwyr lleol a rhanbarthol a'r angen i weithio gyda'r Adran Addysg yn Ynys Môn yn awr i greu llwybr 10 mlynedd fydd yn datblygu ein pobl ifanc gyda sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y prif feysydd gyrfa sy'n cael eu dewis, boed hynny'n beirianeg, crefftau neu reolaeth neu weinyddiaeth. Rwyf wedi pwysu am fuddion i'r gymuned oherwydd credaf ei bod yn bwysig bod yr holl Ynys yn elwa o'r datblygiad arfaethedig yn Wylfa Newydd, nid yn unig o ran swyddi lleol ond hefyd o ran buddsoddiad mewn isadeiledd a buddion cymunedol a chymdeithasol ehangach.

4 - Dysgu a Datblygu

Gan fy mod hefyd yn gweithio fel Darlithiwr Busnes rwyf yn diweddar fy ngwybodaeth a'm ddealltwriaeth yn gyson. Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Diogelu	Ebrill 2014
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Tachwedd 2014

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi sylwi bod y mwyafrif llethol o swyddogion yn gweithio yn hynod o galed, yn ymroddedig ac mae'n bleser delio gyda nhw. Rwyf wastad wedi canmol unigolion a thimau pan oedd hynny'n ddyledus ar sawl achlysur, a chredaf fod hyn yn bwysig iawn ac yn cymell pobl mewn modd cadarnhaol. Rwyf wedi gofyn nifer o gwestiynau anodd ond yn gwrtais ac wedi gweithio'n dda ochr yn ochr â swyddogion ar nifer o faterion.

Eto rwyf wedi mwynhau y 12 mis diwethaf fel Cynghorydd ac mae wedi rhoi boddhad mawr i mi allu helpu cynifer o bobl yn Ward Seiriol gyda'u problemau. Y brif her i mi yw cydbwysu gofynion y rôl gyda fy nghyflogaeth fel darlithiwr Astudiaethau Busnes a bywyd cartref lle mae gennyf dri o blant ifanc a gwraig gefnogol. Rwy'n frwdfrydig iawn am gychwyn fy nhrydedd flwyddyn fel aelod etholedig yn y gred y gallwn ni fel Awdurdod Lleol a Chynghorwyr wneud mwy o gynnydd a helpu mwy o bobl.

Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones
--

Ebrill 2015
